Y PASG 4

ACTAU 9:36-43; SALM 23;
DATGUDDIAD 7:9-17; IOAN 10:22-30

● Gweddi agoriadol

Cawn lun rhyfeddol o Dduw'r bugail yn y Beibl, ac mewn rhannau o'r byd nid yw'r afael dynn rhwng bugail a phraidd wedi newid llawer ers dyddiau'r Beibl. Mae dibyniaeth y defaid ar eu bugail am ddiogelwch a chynhaliaeth yn ddrych o'n perthynas â Duw.

Fugail da, sy'n ein harwain heibio'r dyfroedd tawel ac i borfa fras, bydd yn agos atom yn ein cyfarfod heddiw. Boed i ni borthi ar dy air, profi dy gysgod a chael ein cynnal gan dy Ysbryd, heddiw a phob dydd.

● Moliant

Dduw cariad,
gofali amdanom fel Bugail,
ein harwain at borfa fras a dŵr rhedegog.
Gofali amdanom fel Tad,
yn tynnu y rhai a geri i'th freichiau.
Gofali amdanom fel Gwaredwr,
yn maddau i bawb sy'n tynnu'n agos atat mewn ffydd.
Gofali amdanom fel Arglwydd a Brenin,
ein dwyn i galon dy deyrnas.
Dduw cariad,
gofali amdanom.
Pa fendith fwy all fod
na hyn?

● **Cyffes**

Pan grwydrwn oddi ar y llwybr a ddewisaist,
wedi'n denu gan addewid am well dyddiau,
ein temtio gan y tirlun o'n cwmpas,
chwilio am ffordd wahanol,
maddau i ni.
Dangos y ffordd well i ni –
cerdded yn ôl diogel dy droed,
gwrando ar dy lais yn ein galw,
bwydo ar dy air sy'n faeth,
byw ein bywyd mewn gwasanaeth diolchgar bob dydd.

● **Diolch**

Clod ac anrhydedd,
gogoniant a grym
sydd i'n Duw
byth bythoedd.
Derbyn yr offrwm hwn heddiw –
ein diolchgarwch
am y cwbl a wnest
ac a wnei eto yn ein bywydau;
a'n haberth ninnau,
y cwbl allem wneud i ti
a'r rhai y'n harweini atynt.
Clod ac anrhydedd,
gogoniant a grym
sydd i'n Duw
byth bythoedd.